# Tystiolaeth Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) i'r Pwyllgor Menter a Dysgu ar weithredu argymhellion y Pwyllgor ar Ariannu ysgolion blaenorol, *Adroddiad ar Ariannu Ysgolion yng Nghymru* (Mehefin 2006)

**Rhagarweiniad**

Ymddengys fel pe na bai'r Cynulliad wedi gweithredu'n llwyddiannus ar nifer o'r argymhellion yn yr adroddiad gwreiddiol, gan fod diffyg tryloywder yn parhau'n broblem.

Efallai bod gwerth nodi sylwadau gan y *School Teachers' Review Body* yn Rhan Un o'i 17$^{eg}$ Adroddiad am natur tystiolaeth Llywodraeth y Cynulliad (a'r Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, y DCSF, yn Lloegr) i'r corff:

1.14 The most important issue relates to affordability matters. The affordability of our recommendations is an entirely proper consideration and in the course of our work on this review we put considerable effort into making clear what information we required to be able to pursue this consideration in a thorough, evidence-based way. But for the period for which our recommendations will apply, neither the Department (DCSF) nor the Welsh Assembly Government provided us with information on critical areas such as the levels of revenue funding for schools or anticipated cost pressures. Transparency requires more than Government assertions on affordability: timely, relevant and sufficiently detailed information must be available so all participants in the process can consider, probe and challenge.

1.15 The Department and the Welsh Assembly Government have explained that the Comprehensive Spending Review (CSR) was not finalised until the end of our process. We note this, but must observe that it was foreseeable when the timeline for our report was set . . .

**1. Y Broses Ariannu** – a ydych yn deall prosesau ariannu ysgolion?

a) Pa wybodaeth fyddai'n ddefnyddiol i chi ddeall y broses – a pham?

b) Os oes gennych farn am y fframwaith deddfwriaethol sy'n llywio ariannu ysgolion yng Nghymru, a wnewch chi ei chynnwys yn eich ymateb?

1.1 Nid yw'r broses ariannu yn eglur a theimlwn yn sicr nad yw'r mwyafrif o bobl yn deall prosesau ariannu ysgolion. Ar hyn o bryd, mewn gwirionedd, mae 22 proses ariannu gwahanol oherwydd bodolaeth 22 Awdurdod Lleol, e.e. mae adegau pan fydd adran ganolog o'r AALl yn hawlio arian yn ôl wrth ysgolion i dalu am wasanaethau, e.e. gwasanaeth cyfreithiol, TGCh a.y.b. - llynedd roedd y gost yn £4 miliwn mewn un Awdurdod. Nid oes hyd yn oed un drefn gyffredin i adrodd ar faterion ariannu ysgolion. Mae'r Datganiadau Adran 52 / *Section 52 Statements* dal yn anghyson ar draws Cymru, mae'n debyg.

1.2 Does dim camau wedi eu cymryd tuag at isafswm craidd (*minimum core entitlement*) ar gyfer pob disgybl. Nid yw UCAC yn credu ei fod yn ddigonol i gyllido yn ôl y pen. Mae gofynion datblygiadau addysgol mawr megis y Cyfnod Sylfaen, Llwybrau Dysgu 14-19, yn gofyn am fuddsoddiad sydd yn cymryd i ystyriaeth materion megis yr angen i staffio ar lefel uwch, adnoddau / adeiladau newydd, ac ati.

1.3 Nid oes tryloywder yn y broses, ac rydym yn bell ohoni ar hyn o bryd. Mae'n dal yn bosibl i'r Cynulliad a'r ALl, y naill i feio'r llall am broblemau cyllido - mae'r "niwl / *funding fog,*" yn cyfrannu at hyn. Mae angen tryloywder ar bob lefel, e.e. dylai athrawon, undebau fod yn gallu gweld faint o arian oedd ar gael, o ble, ac i ble'r aeth yr arian. Mae tryloywder yn sicrhau atebolrwydd.

1.4 Mae ffynonellau arian ychwanegol hefyd yn cymhlethu pethau ac yn eu gwneud yn anoddach sicrhau tryloywder.

1.5 Byddai'n ddefnyddiol petai ddogfen ganllawiau ar gael i randdeiliaid, yn cynnwys manylion pob ffynhonnell arian sydd ar gael i ysgolion ac Awdurdodau Addysg Lleol, a manylion am y broses o benderfynu ar gyllid / sut i wneud cais / derbyn arian. Dylai'r llyfryn gynnwys manylion am y Fframwaith Deddfwriaethol sy'n llywio'r broses.

**2.** **Mynediad at wybodaeth**, gan gynnwys y wybodaeth sydd ar y we – o oes gennych fynediad parod i'r wybodaeth y mae arnoch ei hangen ar sut y mae eich ysgol chi ac ysgolion eraill yn cael eu hariannu?
   (a) Pa wybodaeth yr hoffech ei ddarllen ar y we?
   (b) Mae Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu adran ariannu ysgolion ar ei safle we, gan gynnwys cyfeiriad e-bost penodol ar gyfer ymholiadau, er mwyn darparu gwybodaeth addas ar ariannu ysgolion.
      (i) Pa wybodaeth yr hoffech ei ddarllen?
      (ii) Sut yr hoffech dderbyn gwybodaeth gyfredol am ariannu ysgolion?

2.1 Mae angen gwell mynediad i wybodaeth, e.e. manylion am grantiau arbennig ar y we. Ar hyn o bryd rhaid chwilota am wybodaeth berthnasol. Mae'n debyg nid yw Llywodraethwyr bob amser yn sicr pa arian (ffynonellau cyllid) sydd ar gael, na beth yw'r meini prawf i gael gafael arno.

2.2 Mae'n anodd darganfod gwybodaeth berthnasol ar safle we'r Cynulliad – dim ond am arian ar gyfer y myfyrwyr mae'r Adran Ariannu am addysg yn sôn. Bu i ni ffeindio gwybodaeth arall am ariannu ar ddamwain wrth chwilio am bethau eraill!

2.3 Ffoniodd UCAC Adran Gyhoeddiadau'r Cynulliad i ofyn am ddogfennau yn rhoi manylion am gyllido ysgolion, gan esbonio ein bod yn dymuno derbyn gwybodaeth am ddulliau ariannu ac am ffynonellau ariannu ysgolion. Yr unig ddogfen y daethpwyd o hyd iddi oedd yr Adroddiad ar Ariannu Ysgolion yng Nghymru (Mehefin 2006)! Cysylltwyd hefyd gydag Adran Cyfarwyddiaeth

Ystadegau'r Cynulliad ac awgrymwyd y dylem drafod gyda'r Adrannau Ariannu Cyfalaf ac Adeiladau Ysgolion (Capital Funding and School Building) a'r Ariannu Refeniw a Iechyd a Diogelwch (Revenue Funding and Health and Safety). Dywedwyd wrth UCAC gan yr adrannau hyn nad oedd dogfennau gwybodaeth ar gael, ond bod y Cynulliad yn gweithio ar baratoi rhywbeth generig ar gyfer y wefan fyddai'n addas ar gyfer unrhyw un heb wybodaeth o gwbl am ariannu ysgolion - ond nad oedd yn barod eto. Nodwyd bod manylion am grantiau ôl-16 ar gael ar y wefan. Dywedwyd y byddai'n rhaid edrych ar fanylion pob AALl i gael gweld manylion arian addysg ac edrych ar gofnodion cyfarfodydd y Fforymau Cyllido ysgolion, gan fod y penderfyniadau am ariannu addysg yn digwydd yn lleol, nid yn ganolog. Nodwyd y byddai'r *Local Government Revenue Settlement* yn rhoi amcan am faint o arian roedd pob sir wedi ei dderbyn ar gyfer eu holl wasanaethau ond nid yn benodol am addysg.

Mewn gwirionedd, profodd yn anodd, a chymerodd gryn dipyn o amser i ddarganfod gwybodaeth amhenodol. Anodd iawn felly yw darganfod gwybodaeth bendant, ddefnyddiol, trwy alwad ffôn neu trwy ymweld â'r we.

2.4 Mae angen i bob ysgol / AALl / rhanddeiliad dderbyn copi caled o restr sydd yn dangos bob ffynhonnell ariannol sydd ar gael iddynt a sut i gael gafael ar yr arian. Dylai'r ohebiaeth gynnwys manylion am sut i ddarganfod manylion perthnasol / ffurflenni, a.y.b. ar y we. Dim ond trwy anfon copi caled yn ogystal â rhoi'r wybodaeth ar y we y gallwn fod yn sicr bod pawb yn derbyn / cael mynediad i'r un wybodaeth.

3. **Arian Ychwanegol** - lle darperir arian ychwanegol, efallai drwy grant gan Lywodraeth y cynulliad er enghraifft arian ar gyfer y fenter brecwast am ddim neu arian Rhagor / RAISE, a ydych yn derbyn gwybodaeth addas yn brydlon? Sut y gellir gwella'r llif wybodaeth?

3.1 Unwaith eto petai manylion pob grant ar gael ar ddechrau'r flwyddyn addysgol mewn llyfryn cynhwysfawr, byddai pawb yn derbyn y wybodaeth yn brydlon ac ar yr un pryd. Dylid nodi manylion POB grant gyda'r dyddiad cau, ffurflenni pwrpasol (neu fanylion ar sut i gael gafael ar y ffurflenni), enwau cyswllt perthnasol, ac ati.

3.2 Nid amseriad y wybodaeth yw'r unig broblem. Mae grantiau ar gael ar gyfer cyrsiau ôl-16 yn ogystal â'r uchod, ac mae'r diwylliant "bids," (bidding culture) a'r syniad o orfod cyflwyno cais am grantiau am arian ychwanegol, yn ei gwneud hi'n anoddach cael tryloywder. Cyfranna hefyd at lwyth gwaith - rhaid cyflwyno cynlluniau fel rhan o'r bid. Cred UCAC nad yw grantiau byrdymor yn ddigonol i sicrhau datblygiad a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae angen buddsoddiad mwy hirdymor i sicrhau bod modd i ysgolion sefydlu a datblygu cynlluniau megis Cynllun Brecwast, pontio Cynradd / Uwchradd, cyrsiau Llwybrau Dysgu 14-19, ac ati. O ran grantiau ôl-16 rhaid sicrhau bod sefydliadau'n derbyn gwybodaeth mewn da bryd i wneud trefniadau ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

3.3 Rhaid i ni ofyn hefyd faint o arian byd addysg sydd erbyn hyn yn cael ei wario (neu’i wastraffu) ar brosesu a gwneud awdit o’r bids a dyfarnu pwy sydd yn mynd i dderbyn arian?

3.4 Petai’r broses ariannu yn cynnwys ystyriaeth o anghenion cwricwlaidd, e.e. ratio oedolyn:plentyn yn y Cyfnod Sylfaen; yr angen i staffio ar lefel uwch ar gyfer cyflawni gweledigaeth Llwybrau Dysgu 14-19; amser i ryddhau athrawon ar gyfer safoni ar y cyd CA2 / CA3, sydd oll yn creu costau ychwanegol, byddai’r fformiwla ariannu yn fwy teg i bob ysgol, a byddai llai o angen grantiau ychwanegol.

3.5 Rhaid cofio, hefyd, er bod niferoedd y plant sy’n cael cinio am ddim yn arwydd o dlodi, nid dyma’r unig arwydd o dlodi - nid oes ar hyn o bryd, gydnabyddiaeth ar gyfer plant sydd â’u rhieni yn derbyn y Credyd Treth Gwaith / *Working Tax Credit*, sydd hefyd yn arwydd o dlodi ac anfantais.

3.6 Oherwydd y fformiwla bresennol, nid yw’r disgyblion hynny o gefndir tlawd sydd yn mynychu ysgolion lle mae llai o ddisgyblion o gefndir anfanteisiol (e.e. mewn rhai o’n ysgolion cyfrwng Cymraeg ni) yn gallu cael mynediad i arian RHAGOR / RAISE; mae eu hanghenion hwy'n cael eu hanwybyddu.

4. **Buddsoddiad Mewn Adeiladau** – a gredwch fod y wybodaeth sydd ar gael yn lleol ar fuddsoddiad mewn adeiladau ysgolion yn lleol yn eglur?
   (a) Sut y gellir gwella gwybodaeth ar ffynhonnell a maint yr arian ar gyfer rhaglenni cyfalaf (adeiladau yn benodol)?

4.1 Mae angen mwy o eglurder ar adegau. Mae Cynlluniau Moderneiddio’n aml yn sôn am gau / cyfuno / adeiladu ysgolion, ond heb son am sut i ariannu’r mentrau hyn. Dylai fod yn ofynnol i gofnodi manylion am ffynonellau a symiau sydd ar gael ar gyfer rhaglenni o’r math wrth gyhoeddi bod yna gynlluniau posibl ar gyfer newidiadau i adeiladau.

4.2 Ni ddylai ysgolion orfod rhoi arian o’u cronfeydd cyfalaf o’r naill ochr i ariannu rhaglenni adeiladu. Dyma un rheswm pam mae arian wrth gefn (*reserves*) rhai ysgolion i weld yn uchel, oherwydd bod arian ganddynt o’r naill ochr i ariannu gwelliannau i’r adeilad neu raglen adeiladu. Mae UCAC yn cael ar ddeall bod yna rhai Awdurdodau sydd wedi rhoi arian o’r naill ochr ar gyfer adeiladau, ond heb ddefnyddio’r arian hwnnw.

4.3 Mae UCAC yn gwrthwynebu mwy o ddefnydd o gytundebau preifat (ariannu PFI) i adeiladu ysgolion. Mae’r system yn aml yn gallu arwain at gostau uchel i’r ysgol, gydag arian yn cael ei symud i ffwrdd oddi wrth addysg disgyblion. Rhaid cofio bod cwmnïau preifat o’r fath yn dymuno gwneud elw - a dyna yw eu prif nod. Mae diffyg ystwythder rhai cytundebau wedi arwain at anfanteision i rai ysgolion yn y gorffennol.

5. **Fforymau Cyllido ysgolion** - a dybiwch fod y rhain yn gweithredu'n effeithiol? Pa ganlyniadau yr hoffech i ddod o adolygiad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar fforymau cyllido ysgolion?

5.1 Mae UCAC yn gofyn y cwestiynau, "A ydyn nhw'n cwrdd ym mhob Awdurdod? Beth yw eu pwrpas? Ai rhoi "*rubber stamp*" ar benderfyniadau?" Mae rhai enghreifftiau positif, ond nid yw pawb yn deall sut mae'r fforymau'n gweithio. Does ganddyn nhw ddim pŵer gwneud penderfyniadau yng Nghymru, ac mae perygl iddynt fod yn siop siarad. Mae'n dibynnu'n gyfan gwbl, felly, ar galibr personél ac ethos y fforwm.

5.2 Nid oes rheidrwydd cynnwys Undebau Athrawon yn y fforymau cyllido - dylai aelodaeth gan Undebau Athrawon fod yn orfodol.

31 Ionawr 2008

UCAC
Pen Roc
Rhodfa'r Môr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 2AZ

01970 639950

ucac@athrawon.com / www.athrawon.com